

Addoli

Ystyr addoli yw dwysbigo'r gydwybod â sancteiddrwydd Duw,
porthi'r meddwl ar wirionedd Duw,
puro'r dychymyg gan brydferthwch Duw,
agor y galon i gariad Duw,
plygu'r ewylllys i bwrpas Duw.

William Temple

EMYNAU

Elfen hanfodol o bob addoliad yw plygu'n wylaidd ger dy fron:

Ymgrymwn oll ynghyd i lawr
gerbron gorseddfainc gras yn awr;
â pharchus ofn addolwn Dduw;
mae'n weddus iawn – awr weddi yw.

Casgliad Robert Jones (*Caneuon Ffydd*: 12)

Dyrchafu mawredd Duw yw man cychwyn addoliad:

Addolwn Dduw, ein Harglwydd mawr,
mewn parch a chariad yma nawr;
y Tri yn Un a'r Un yn Dri
yw'r Arglwydd a addolwn ni.

Gwyllt y Mynydd (*Caneuon Ffydd*: 14)

Ymhob addoliad fe ddaw bendith newydd ynghyd â chyfoethogi a sancteiddio bywyd:

Cyfoethoga â'th feddyliau
ein meddyliau ni, bob un,
a sancteiddia di ein bywyd
yn dy fywyd di dy hun,
ynddo i aros
yn oes oesoedd er dy glod.

Derwyn Jones (*Caneuon Ffydd*: 21)

Y gwan a'r gwylaidd sy'n plygu ac yn dyheu am arweiniad newydd:

Wel dyma hyfryd fan
 i droi at Dduw,
 lle gall credadun gwan
 gael nerth i fyw:
 fry at dy orsedd di
 'rŷm yn dyrchafu'n cri;
 O edrych arnom ni,
 a'n gweddi clyw!

Frances J. Van Alstyne *efel*. Watcyn Wyn (*Caneuon Ffydd*: 36)

Mae campwaith a godidowgrwydd y cread yn anfon dyn ar ei liniau i ddiolch:

Tydi sy deilwng oll o'm cân,
 fy Ngrëwr mawr a'm Duw;
 dy ddoniau di o'm hamgylch maent
 bob awr yr wyf yn byw.

David Charles (*Caneuon Ffydd*: 64)

Yng nghwmni Duw ac yn ei gysgod y teimlwn rym yr awelon peraidd:

Y mae syched ar fy nghalon
 heddiw am gael gwir fwynhau
 dyfroedd hyfryd ffynnon Bethlem –
 dyfroedd gloyw sy'n parhau;
 pe cawn hynny
 'mlaen mi gerddwn ar fy nhaith.

William Williams (*Caneuon Ffydd*: 708)

GWEDDIAU**Rho yn ein calonnau yr awydd i'th ganmol a'th glodfori:**

Diolchwn i ti, ein Tad, am y gallu i addoli, a rhyfeddwn at ba mor barod wyt ti i dderbyn ein haddoliad. Cofiw'n mai creaduriaid syrthiedig ydym,

ac eto gwyddom nad oes dim yn fwy hyfryd gennyt ti na sŵn moliant dy bobl. Rho yn ein calonnau ni felly yr awydd i'th ganmol, ac agor ein meddyliau i dderbyn dy wirionedd. Amen.

Elwyn Richards

Gwylw'n rhag ofn i ni gyfyngu arnat a'th gaethiwo trwy ein geiriau a'n delweddau ohonot ti:

O! Dduw, rho inni'r doethineb yn awr i ymatal rhag ceisio dy rwydo mewn geiriau, ymaflyd ynot â'n meddwl, caethiwo dy ryfeddod â'n syniadau'n hunain. Yn hytrach, gad inni syllu arnat, a gad i'r syllu hwnnw droi'n adnabyddiaeth, a'r adnabyddiaeth yn fawl. Gwared ni rhag llefaru geiriau gwag a bodloni ar hen ddelweddau, arbed ni rhag llygru dy burdeb â'n pechod, a rho inni'r wefr honno a deimla'r sawl a ddaw i undeb bywiol â thydi. Amen.

Elwyn Richards

Boed i ni trwy ein haddoliad fod yn ddilynwyr gwell a mwy beiddgar i ti:

A thrwy'r orig hon o addoliad deisyfwn ar iti ein bywiocáu yn ein hysbryd fel y byddwn yn dy wasanaethu di'n ffyddlonach yn ein bywyd beunyddiol, ac yn derbyn sêl newydd i anrhydeddu dy enw ar y ddaear. Yn wir, dymunwn i ti ein tanio ni o'r newydd â than dy Lân Ysbryd. Boed inni brofi dy sêl di yn llosgi yn ein calon, sêl megis ein Harglwydd Iesu Grist yn glanhau y deml, yn pregethu'r newyddion da i'r tyrfaeodd, yn iacháu'r cleifion, ac yn rhoddi ei einioes yn bridwerth dros lawer. Amen.

Dewi Roberts

Boed i'r awydd i'th geisio droi'n ymdrech a'r ymdrech yn addoliad:

Creaist ni i fod mewn perthynas â thi
 a phlenaist ynom awydd i'th geisio;
 gad i'r awydd droi yn ymdrech,
 yr ymdrech yn addoliad,
 a'r addoliad yn fendith i'n heneidiau
 ac yn offrwm o fawl i ti. Amen.

Elfed ap Nefydd Roberts

Mae addoli'n golygu canolbwyntio arnat ti a'th ddyrchafu:

Rwy'n troi fy meddyliau yn dawel, O Dduw, i ffwrdd oddi wrthyf fy hunan atat ti. Rwy'n dy addoli di. Rwy'n dy ganmol di. Rwy'n diolch i ti. Rwy'n troi yma oddi wrth y bywyd twymynol hwn er mwyn ystyried dy sancteiddrwydd – dy gariad – dy serenedd – dy lawenydd – dy benderfynoldeb enfawr – dy ddoethineb – dy harddwch – dy wirionedd – dy hollalluowgrwydd terfynol. Yn araf rwy'n sibrwd y geiriau mawrion hyn amdanat ti a gadael i'w teimlad a'u pwysigrwydd suddo i mewn i fannau dyfnion fy meddwl. Amen.

Leslie D. Weatherhead

ADNODAU**Cam cyntaf pob addoliad yw plygu; y bach yn plygu gerbron y mawr:**

Dewch, addolwn ac ymgrymwn,
plygwn ein gliniau gerbron yr ARGLWYDD a'n gwnaeth.

Salm 95: 6

Down yn llawen i bresenoldeb Duw:

Addolwch yr ARGLWYDD mewn llawenydd,
dewch o'i flaen â chân.

Salm 100: 2

Beth ddylai ein hagwedd fod wrth i ni nesáu at Dduw?

Gwylia dy droed pan fyddi'n mynd i dŷ Dduw. Y mae'n well nesáu i wrando nag offrymu aberth ffyliaid, oherwydd nid ydynt hwy'n gwybod eu bod yn gwneud drwg.

Pregethwr 5: 1

Gweddïwn nes bod y chwys yn llifo a hynny drwy'r nos ac ar doriad gwawr:

Deisyfaf di â'm holl galon drwy'r nos,
 a cheisiaf di'n daer gyda'r wawr;
 oherwydd pan fydd dy farnedigaethau yn y wlad,
 bydd trigolion byd yn dysgu cyfiawnder.

Eseia 26: 9

Ydi'r dyhead am Dduw yn llenwi ein bywydau?

Fel y dyhea ewig am ddyfroedd rhedegog,
 felly y dyhea fy enaid amdanat ti, O Dduw.

Salm 42: 1

Mae'r addolwr yn plygu gerbron yr un sanctaidd:

Pwy nid ofna, Arglwydd,
 a gogoneddu dy enw?
 Oherwydd tydi yn unig sydd sanctaidd.
 Daw'r holl genhedloedd
 ac addoli ger dy fron,
 oherwydd y mae dy farnedigaethau cyfiawn wedi eu hamlygu.

Datguddiad 15: 4

DYWEDIADAU A THRADDODIADAU

Y peth cyntaf sy'n digwydd mewn addoliad Cristnogol yw ein bod yn cydnabod mawredd a sancteiddrwydd Duw ac ymateb iddo wedyn mewn gwasanaeth ac ufudd-dod. Felly, nid rhywbeth sy'n digwydd am awr ar y Sul yn unig ydi addoli; mae'n ymwneud â bywyd yn ei gyfanwaith bob dydd o'n bywyd.

Wrth i ni ddyrchafu a mawrygu Duw, a'i gydnabod yn Arglwydd, fe gawn ni ein hunain ein dyrchafu. Mae Duw yn ein codi ato'i hun ac yn tywallt yr elfennau sy'n perthyn iddo ef arnom ni. Mae addoli yn ein gwneud yn Dduw-debyg.

Gwir agwedd yr addolwr ger bron Duw yw distawrwydd gwrandawgar.

A dyma felly'r prif elfennau yng ngweddi'r Cristion ar hyd y canrifoedd, sef addoliad, deisyfiad, cyffes, eiriolaeth, mawl a diolchgarwch. ... Onid teg yw cydnabod mai'r ffurf aruchelaf ar ein haddoliad o Dduw yw mudandod sanctaidd?

Nid rheol ddiogelwch ydyw addoli Duw; antur yr ysbryd ydyw.

A. N. Whitehead